




# DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG


## Jason O'Brien

### Prif Swyddog
### Gofal Cymdeithasol a Thai

**Yn ystod 2021-22, rydym wedi dod o hyd i atebion arloesol i sicrhau ein bod yn cefnogi, diogelu, ac yn galluogi pobl fregus i gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a'r lles sydd eu hangen arnynt. Rydym wedi glynu at ein hegwyddorion a'n gwerthoedd, sef hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risg pwyllog a lleihau arwahanrwydd drwy gael sgyrsiau "Yr Hyn Sy'n Bwysig" sy'n canolbwyntio ar roi llais a rheolaeth i bobl wrth wneud penderfyniadau. Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn fy nghydweithwyr yn y maes Gofal Cymdeithasol a Thai. Maent wedi parhau i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon yn ystod y pandemig. Er gwaethaf y galw a'r cymhlethdod ychwanegol a grëwyd gan y pandemig, cyflawnwyd y gwasanaethau craidd, tra bod y gwasanaeth yn parhau i wneud gwelliannau. Mae recriwtio ar draws gofal cymdeithasol cyfan yn parhau yn her fawr am y flwyddyn i ddod, mae meysydd lle mae angen datblygu pellach, a bydd y rhain yn cael sylw drwy gynllun y Prif Swyddog a chynlluniau tîm unigol a'u monitro'n gadarn yn ystod 2022-23.**

## Beth aeth yn dda...

- ✔ Mae gwella'r ffordd o weithio drwy bartneriaeth yn sgil Hwb Cymorth a Diogelu Aml-Asiantaeth (MASSH) estynedig yn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.
- ✔ Datblygu ein llwybr cyfeirio ar-lein sy'n cyd-fynd â throthwy anghenion ac yn galluogi cyfarwyddwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau effeithiol wrth ystyried atgyfeirio at wasanaethau plant a theuluoedd.
- ✔ Adolygu gwasanaeth cyfan y Tîm Lleoli Teuluoedd a fydd yn cynyddu sefydlogrwydd lleoliadau i'n Plant sy'n Derbyn Gofal, gwella'r defnydd o leoliadau maeth mewnol a sicrhau bod ein Gofalwyr Maeth yn cael cymorth addas.
- ✔ Drwy ystod o newidiadau o ran ymarfer a mentrau rydym wedi sicrhau gostyngiad net yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ac rydym wedi defnyddio llai o leoliadau preswyl a gwario llai arnynt.
- ✔ Rydym wedi ymwreiddio dull newydd o reoli perfformiad gan arwain at fewnwelediad ac atebolrwydd mwy ystyrlon.
- ✔ Fe wnaethom agor canolfan gymunedol Gwasanaethau Oedolion Tŷ Glas y Dorlan. Mae hyn yn cynnig llety o safon uchel gyda ffocws ar adfer er mwyn ail-alluogi, felly'n galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a darparu cyfleoedd i ofalwyr yn Nhorfaen i gael seibiannau.
- ✔ Ymatebodd cydweithwyr yn y maes tai yn frwdfrydig i heriau newydd yn ystod y pandemig a helpodd i greu canolfan gymunedol lwyddiannus iawn sy'n cysylltu gwirfoddolwyr ag unigolion am gymorth gyda thasgau dyddiol.
- ✔ Gan weithio gyda phartneriaid, sicrhaodd y tîm llety dros dro fod llety diogel yn cael ei gynnig i bawb oedd yn cysgu ar y stryd.
- ✔ Fe wnaethon ni gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol gyda dros 22 miliwn o eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol ers dechrau'r pandemig.





# Heriau wrth symud ymlaen

Dyma'r heriau strategol allweddol sy'n dod i'r amlwg yn dilyn yr hunanwerthusiad.

Bydd heriau pellach yn ystod nifer o flynyddoedd, a gafodd eu dwyn ymlaen o Gynllun y Prif Swyddog 2021-22 a phrosiectau eraill sy'n dod i'r amlwg o weithgareddau i greu newid, yn cael eu cynnal gan ganolbwyntio o'r newydd ar ddata, perfformiad a rheoli risg.

| | Challenges | Solutions/Actions |
|---|---|---|
| **1** | • Cefnogi pobl, staff, darparwyr, a chymunedau Torfaen i adfer yn dilyn effeithiau corfforol ac emosiynol y pandemig. | • Cael yr adnoddau a'r gallu i gefnogi gwasanaethau a gomisiynir gan achosion o Covid.<br>• Cymryd rhan mewn gwaith ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i ddatblygu cynlluniau deinamig wrth adfer. |
| **2** | • Nifer yr atgyfeiriadau a chymhlethdodau cynyddol sydd angen lefelau uchel o gymorth gan staff. | • Gwella dulliau gweithio mewn partneriaeth a dulliau amlasiantaethol o wella canlyniadau i unigolion.<br>• Monitro effeithiolrwydd lleoliadau cost uchel.<br>• Deall, cydnabod a chynllunio ar gyfer effaith Covid. |
| **3** | • Breuder yn y farchnad darparwr Gofal Cymdeithasol a'n gallu i gomisiynu'r lefel iawn o ofal sydd ei angen ar bobl. | • Adeiladu ar y berthynas gadarnhaol gyda'n partneriaid i adeiladu marchnad darparwr cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar alluogi, hyrwyddo annibyniaeth a chymryd risg cadarnhaol sy'n galluogi pobl i fyw'r ffordd y maen nhw'n dewis byw.<br>• Cymryd rhan mewn llif gwaith Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol i sbarduno gwelliannau yn y dyfodol. |
| **4** | • Ansicrwydd o ran cynllunio gwasanaethau yn sgil arian grant Tymor Byr. | • Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff eraill sy'n cyllido fel y gellir cynllunio gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon a chanfod meysydd o flaenoriaeth i fuddsoddi ynddynt. |
| **5** | • Recriwtio a chadw staff ar draws y maes gwasanaeth ac o fewn gwasanaethau a gomisiynir i gyflawni ein gwasanaethau. | • Ymgysylltu'n fewnol ac yn rhanbarthol ar strategaethau i recriwtio a chadw staff gofal<br>• Gweithio gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol i adolygu'r "cynnig" yr ALl<br>• Adolygu cyfleoedd secondio /noddi i'r digymhwyster. |
| **6** | • Yr effeithiau a ddisgwylir yn sgil yr argyfwng costau byw ar sefydlogrwydd ariannol y darparwyr a nifer yr oedolion, plant a theuluoedd sy'n wynebu mwy o dlodi. | • Gweithio gyda chydweithwyr corfforaethol i ddeall yr effaith, a sicrhau y gallwn weithio ar draws cyfarwyddiaethau i gefnogi unigolion a theuluoedd i greu'r cyfleoedd mwyaf i gael sefydlogrwydd. |